# Gwerth Cymreictod – Effaith Manwerthu 2026

20 Siop

Yn canolbwyntio ar Gig, cynnyrch llaeth, cynnyrch pob, dŵr, cwrw a gwirodydd, cynnyrch, pasteiod a chynnyrch crwst

Chwefror 2026

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Pam mae Cymreictod o bwys?









© Direct Dialogue 2026

Mae Cymreig yn golygu: Cefnogi Cymru, Ffresni, Ansawdd Gwell, Blas Gwell, Cynaliadwy a Naturiol

Welsh means; Support Wales, Freshness, Better Quality, Better Taste, Sustainable and Natural

---

Y prif gysylltiad yw Cig Oen
Lamb is the number 1 association

Digyffwrdd, Gwledig, Graddfa Ddynol
Unspoiled, Rural, Human Scale

Agosrwydd o safbwynt corfforol ac emosiynol
Physically and emotionally close

Hapusrwydd amser gwyliau
Holiday happiness

Ffynhonnell: MRQual Gwerth Cymreictod 2024
1,000 o Siopwyr yng Nghymru

Cwestiwn: Gan feddwl am (CYNNYRCH) o Gymru, pa rai o’r geiriau a ganlyn, os oes unrhyw rai o gwbl, ydych chi’n meddwl sy’n berthnasol?

Source: MRQual Value of Welshness 2024
1,000 Welsh

Question: Thinking about (PRODUCT) from Wales, which of the following words, if any, do you think apply?



# Ar gyfer y prif gynhyrchion byddai'n well gan **8/10** o siopwyr Cymreig brynu cynnyrch Cymreig

# For Top Items **8/10** Welsh Shoppers would prefer to buy Welsh products




Cwestiwn: Petaech yn cael y dewis, pa un o'r rhain fyddai'n well gennych chi ei brynu? (Ac eithrio Categori Heb Fod yn Brynwyr)

Ffynhonnell: MRQual Gwerth Cymreictod 2024
1,000 o Siopwyr yng Nghymru
Source: MRQual Value of Welshness 2024
1,000 Welsh Shoppers

Y Rhaglen Mewnwelediad
The Insight Programme

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Ar gyfer **1/5** o siopwyr mae stocio dewis eang o gig, cynnyrch llaeth a chynnyrch Cymreig yn bwysig

For **1/5** of Shoppers Stocking a good range of Welsh Meat, Dairy & Produce

## 5 Prif reswm dros ddewis siop

## Top 5 reason for store choice

- **52%** Prisiau isel / Gwerth am arian
- **51%** Ansawdd
- **23%** Ystod o frandiau yr wyf yn hoff ohonynt
- **19%** Ystod dda o gig, cynnyrch llaeth a chynhyrchion o Gymru
- **16%** Ystod wych o gynnyrch label eu hunain
- **9%** Ystod wych o frandiau Cymreig
- **9%** Ystod o frandiau iach premiwm/moethus
- **10%** Ystod o frandiau sydd ag egwyddorion cynaliadwyedd cryfion


Cwestiwn: Ticiwch eich pum prif reswm dros siopa yn (PRIF SIOP).

Ffynhonnell: MRQual Gwerth Cymreictod 2024
1,000 o Siopwyr yng Nghymru
Source: MRQual Value of Welshness 2024
1,000 Welsh Shoppers

Y Rhaglen Mewnwelediad
The Insight Programme

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Rhwng 2022 a 2025, mae rhestriadau Uned Cadw Stoc wedi cynyddu ym mhob categori bron iawn




- Mae yna gynnydd wedi bod yn y rhestriadau ar draws pob categori.
- Mae bwydydd Cynnyrch eu Hunain; Cynnyrch Llaeth ac Wyau a Chig Coch wedi gweld cynnydd sylweddol
- Brand; Cynnyrch Pob, Cwrw, Gwin a Gwirodydd, Pasteiod a Phrydau Bwyd Parod mewn Bwydydd Hwylus o'r Oergell, Confennau a Bariau Byrbryd yn y Cwpwrdd Bwyd a Diodydd Meddal

Y Rhaglen Mewnwelediad
The Insight Programme

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Archwiliad y Rhaglen Datblygu Masnach 2025, Manwerthwyr Mawr a siopau Bargeinion

Trade Development Programme Audit 2025, Major Mults and Bargain stores

# Tair lefel o gyfathrebu Cymraeg

## 1 Hunaniaeth y Siop

*Gwerthoedd a chysylltiad emosiynol*

Arwyddion Cymraeg wrth y fynedfa/allanfa,
negeseuon ymrwymiad cymunedol,
balchder Cymreig a theyrngarwch

## 2 Llywio

*Arwyddion cyfeiriadol yn y siop*

Penawdau, arwyddion ar ochr silffoedd,
y Ddraig Goch yn ymyl y cynnyrch,
clystyru cynnyrch Cymreig

## 3 Pacio

*Dull adnabod y cynnyrch*

Y Ddraig Goch ar y pecyn, yr iaith Gymraeg,
lliwiau sy’n ymwneud â’r wlad,
datganiadau ‘Gwnaed yng Nghymru’

**Mae’r lefelau hyn yn gweithio yn synergyddol. Mae cyflawni Lefel 1 yn dda ond heb ddilyn hynny gyda Lefel 2 yn dynodi rhywbeth cosmetig neu’n ‘Welsh-washing’ – sy’n cyfleu teimlad o eiriau gwag.**

© Direct Dialogue 2026

# Negeseuon hunaniaeth Gymraeg yn y siop, arwyddion llywio Cymraeg rhwydd yn y siop, a Chymraeg ar y deunydd pacio yn cyfuno i gyfleu Cymreictod i gwsmeriaid








© Direct Dialogue 2026

# Y Ddraig Goch: symbol arwyddocaol



## Y canfyddiad mwyaf cyson ar draws pob cyfweliad

Y Ddraig Goch yw'r unig symbol dibynadwy ac adnabyddus y mae siopwyr Cymraeg ei angen i adnabod cynnyrch lleol. Mae'n pontio rhwystrau iaith, gwybodaeth am y brand, a strwythurau siopau.

> *Cyn gynted ag y byddaf yn gweld y Ddraig Goch, rydw i'n cymryd yn ganiataol bod y cynnyrch yn dod o Gymru*
>
> Catrin, Tesco Llandudno

> *Mae'r Ddraig Goch i'w gweld ar bron i bob cynnyrch o Gymru. Dyma beth ydw i'n chwilio amdani*
>
> Glynis, Tesco Caerfyrddin

> *Mae'r Ddraig Goch yn ddigon gan fod pawb yn ei hadnabod*
>
> Calvin, Co-op Caerfyrddin

© Direct Dialogue 2026

# Y Broblem gyda Jac yr Undeb

1

## Mae siopwyr Cymreig yn dehongli Jac yr Undeb fel rhywbeth 'Seisnigaidd' – nid Cymreig

Er, mewn gwirionedd, y gallai cynnyrch Cymreig hefyd ddangos Jac yr Undeb, ni fyddai unrhyw un y gwnaethom siarad â nhw yn tybio hyn. Mae Jac yr Undeb yn rhwystro'r rheiny sy'n chwilio am gynnyrch lleol ac yn fwy ymwthiol yn weledol oherwydd bod yna fwy o wahaniaeth rhwng y lliwiau.

*Pan ydw i'n gweld Jac yr Undeb, rydw i'n meddwl ei fod yn rhywbeth 'Seisnig'*

Sarah, Sainsbury's Caerdydd

*Petai'n rhywbeth Cymreig, byddent yn rhoi'r Ddraig arno. Ni fyddai unrhyw frand Cymreig yn dewis Jac yr Undeb*

Lyn, Morrisons Aberystwyth

*Os ydw i'n gweld Jac yr Undeb, rydw i'n tybio mai rhywbeth Seisnig ydyw. Os ydw i'n gweld y Ddraig, yna gwn mai Cymreig ydyw*

Jeff, Asda Caerdydd

© Direct Dialogue 2026

# Y Broblem gyda Jac yr Undeb

1

## Mae siopwyr Cymreig yn dehongli Jac yr Undeb fel rhywbeth ‘Seisnigaidd’ – nid Cymreig

Er, mewn gwirionedd, y gallai cynnyrch Cymreig hefyd ddangos Jac yr Undeb, nid fyddai unrhyw un y gwnaethom siarad â nhw yn tybio hyn. Mae Jac yr Undeb yn rhwystro’r rheiny sy’n chwilio am gynnyrch lleol ac yn fwy ymwthiol yn weledol oherwydd bod yna fwy o wahaniaeth rhwng y lliwiau.

> *Pan ydw i’n gweld Jac yr Undeb, rydw i’n meddwl ei fod yn rhywbeth ‘Seisnig’*
>
> Sarah, Sainsbury’s Caerdydd

> *Petai’n rhywbeth Cymreig, byddent yn rhoi’r Ddraig arno. Ni fyddai unrhyw frand Cymreig yn dewis Jac yr Undeb*
>
> Lyn, Morrisons Aberystwyth

> Jeff, Asda Caerdydd

© Direct Dialogue 2026

# 1 Hunaniaeth y Siop

Sefydlu cysylltiad emosiynol gyda siopwyr Cymraeg

## Diben

Cyfleu gwerthoedd a pholisïau'r siop,
Creu naws am le o falchder a theyrngarwch cyffredin gyda'r gymuned Gymreig

## Elfennau effeithiol

- Y Ddraig Goch/arwyddion Cymraeg wrth y fynedfa/allanfa
- 'Yn falch o gefnogi cyflenwyr o Gymru'
- Negeseuon o ymrwymiad cymunedol
- Yn cyflwyno eiconau i gadw llygad amdanynt yn y siop

> *Mae'n gwneud i chi deimlo'n fwy cyfforddus oherwydd bod modd i chi olrhain y cynnyrch o'r bwrdd yn ôl i'r ffermwr*
>
> — Hilary, M&S Llandudno

### Heb ddilyn hyn ymlaen gyda Lefel 2...

Mae Lefel 1 yn dod yn rhywbeth gwag – neu'n 'Welsh-washing'. Nid yw'r ymrwymiad a welir wrth y fynedfa yn parhau y tu mewn i'r siop.

# Hunaniaeth y Siop Lefel 1:
## Beth sy'n dda a beth sy'n wan













© Direct Dialogue

# 2 Arwyddion Llywio a Chyfeiriadol

Y ffactor manwerthu mwyaf hollbwysig o ran helpu siopwyr i ddod o hyd i gynnyrch Cymreig

## Elfennau effeithiol

- Penawdau dros adrannau cynnyrch Cymreig
- Arwyddion ar ochr silffoedd i ddynodi clystyrau
- Y Ddraig Goch ar dicedi prisiau
- Arwyddion gwastad (ddim yn ymwthio allan)
- Ciwiau gweledol cyson, ailadroddus
- **Rhaid** iddynt fod yn gywir, neu cânt eu diystyru

## ⚠ Rhaid bod yn ddigon 'ymwthiol'

Rhaid cystadlu ag arwyddion Prydeinig/Jac yr Undeb ac ymyrryd â siopa ar 'awtobeilot'. Caiff arwyddion sy'n ymwthio allan eu methu os ydy rhywun yn sefyll o flaen y cynnyrch.

> *Mae'r stribedi ar y silffoedd yn llawer mwy effeithiol na'r labelau unigol oherwydd eu bod nhw'n denu eich sylw*
>
> — Hilary, M&S Llandudno

> ***Teimlaf fel petawn i'n chwilota ym mhob man amdanyn nhw!***
>
> — Catrin, Tesco Llandudno

> *Mae fel petaech yn dod ar eu traws drwy lwc*
>
> — Lyn, Morrisons Aberystwyth

© Direct Dialogue 2026

# Arwyddion Llywio a Chyfeiriadol Lefel 2:

## Beth sy’n dda a beth sy’n wan









© Direct Dialogue

# 3 Cyfathrebu ar Ddeunydd Pacio

Adnabod y cynnyrch wrth ddewis

## Elfennau effeithiol

- Y Ddraig Goch yn amlwg — mawr, cyferbyniad uchel
- Lliwiau cenedlaethol: coch, gwyrdd, gwyn
- Yr iaith Gymraeg fel dynodwr dilysrwydd
- Teitl '[Cynnyrch] Cymreig' neu 'Gwnaed yng Nghymru'
- Codau Cymreig eraill: cennin Pedr, 'ffurfdeip Celtaidd'
- Wedi'u dwysáu gan glwstwr/arwyddion Lefel 2

> *Does dim rhaid i chi gynnwys y gair 'Cymru' — rhowch y ddraig goch arno*
>
> — Oriel, Tesco Caerdydd

## Enghreifftiau cryf

Cynnyrch label eu hunain yn Aldi a Lidl: y ddraig goch yn amlwg. Edwards of Conwy: hunaniaeth 'Cigydd o Gymru' gref. Blas y Tir: mae'r lliwiau yn canu cloch cyn darllen y testun.

## Enghreifftiau gwan

Rhai cig oen yn M&S: 'Cynhyrchwyd yng Nghymru' mewn print bach yn unig
Maint y Ddraig Goch ar rai o gynhyrchion label eu hunain yn Tesco

© Direct Dialogue 2026

# Cyfathrebu ar Ddeunydd Pacio Lefel 3:

## Beth sy'n dda a beth sy'n wan









© Direct Dialogue

# Cyfathrebu ar Ddeunydd Pacio Lefel 3:
## Beth sy’n dda a beth sy’n wan












© Direct Dialogue

# Enghreifftiau Da o Frandiau Cymreig










© Direct Dialogue 2026

# Gwir gyfle i fanwerthwyr amlygu Cynhyrchion o Gymru yn y siopau
# Ac i gynhyrchwyr amlygu Cymreictod ar ddeunydd pacio

Ar gyfer nifer o siopwyr;

- Mae Bwyd a Diod o Gymru yn dylanwadu ar eu dewis o siop.
- Categorïau sydd agosaf at y tir sy'n cael yr effaith fwyaf;
  - Cynnyrch, Cig, Cynnyrch Llaeth a Chynnyrch Pob

Cynhyrchwyr:

- Mae gan nifer o fanwerthwyr o Gymru ystod dda o fwyd a diod o Gymru – mae angen iddynt wneud môr a mynydd o hynny a'i gwneud hi'n rhwydd i'r siopwyr ddod o hyd iddynt
- Atgoffwch eich partneriaid masnachu o bwysigrwydd Cymreictod ar bob cam o daith siopwyr
  1. Ymrwymiad cymunedol wrth y fynedfa
  2. Penawdau i gyd-fynd ag Unedau Cadw Stoc, Wrth brynu – labelau ar ochr silffoedd neu arwyddion stribed
  3. Ar y pecyn – yn amlwg a chlir – Y Ddraig Goch/Baner Cymru